Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

10-07-20

Annwyl Riant/Gofalwr,

Ddoe, cyhoeddodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg y bydd ysgolion yn ail-agor yn llawn ym mis Medi. Er mwyn sicrhau eglurder roeddwn am rannu cymaint o wybodaeth ag y gallaf gyda chi, ynglŷn â'r trefniadau y bydd angen inni eu rhoi ar waith yn barod ar gyfer mis Medi.

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn heriol ac mae llawer o'n dysgwyr wedi bod yn bryderus am golli dysgu a pheidio â gallu gweld eu ffrindiau. Felly croesawaf gynllun y Gweinidog a fydd yn ein galluogi i baratoi ar gyfer ailagor yn ddiogel ym mis Medi.

- Bydd diwrnodau cynllunio a pharatoi ar gael ar ddechrau'r tymor i alluogi staff i adolygu ein hasesiadau risg a'n prosesau a systemau cysylltiedig i sicrhau y gall ysgolion groesawu dysgwyr a staff yn ôl yn ddiogel.

- Yn ystod yr wythnos gyntaf efallai bydd angen blaenoriaethu rhai grwpiau penodol o ddysgwyr e.e. y rhai sydd heb ddychwelyd hyd yn hyn, Blwyddyn 7, 10 ac 11 yn y sector Uwchradd a'r Blynyddoedd Cynnar a Blwyddyn 6 yn y sector Cynradd.

- Yn ystod ail wythnos y tymor, byddwn yn cynyddu'r nifer y dysgwyr sy'n bresennol, gan arwain at ddychwelyd yn llawn ar ddydd Llun Medi'r 14eg pan fydd mynychu'r ysgol yn orfodol.

Caiff canllawiau pellach eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ddechrau'r wythnos nesaf, a'r disgwyl yw y bydd y rhain yn cael eu diweddaru'n barhaus wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Mae'n debyg y bydd gan bob ysgol heriau lleol i fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys argaeledd staff. Bydd rhain, a meysydd penodol eraill megis cludiant i'r ysgol, arlwyo, glanhau ac ati yn cael eu hystyried yn fanwl dros yr wythnosau nesaf.

Yn ôl yr hyn a ddeallaf, ni fydd darpariaeth gofal plant ar gyfer gweithwyr allweddol ym mis Medi.

O ystyried yr amgylchiadau presennol, rwy'n ymwybodol iawn bod llawer o'n staff gweithgar, dysgwyr a'u teuluoedd o bosibl o dan bwysau emosiynol, ariannol a seicolegol ychwanegol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio i sicrhau bod y pecyn cymorth gorau yn cael ei gynnig er mwyn sicrhau bod anghenion lles parhaus pob dysgwr ac unigolyn yn cael eu diwallu.

Wrth i'n cynlluniau ddatblygu bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei ddarparu drwy wefan y Cyngor Sir a'r sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Bydd eich ysgol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am drefniadau penodol ar gyfer dechrau tymor yr Hydref.

Hoffwn ddiolch i chi am eich cydweithrediad a'ch ymroddiad dros y misoedd anodd hyn, a gwn y byddwn, o weithio gyda'n gilydd, y gallwn sicrhau y bydd dychwelyd i'r ysgol yn ystod tymor yr Hydref yn llwyddiannus.

Yn ddiffuant,

Gareth Morgans

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE
Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg
You are welcome to contact me in Welsh or English